BRIFF POLISI:

NEWID DULLIAU I TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (VAWDASV)

Pwyntiau allweddol

- Mae VAWDASV yn argyfwng cenedlaethol sy'n costio o leiaf £66 biliwn y flwyddyn i'r economi.
- Gall y Celfyddydau a'r Dyniaethau ein helpu i ddeall beth sy'n bwysig i oroeswyr, ac felly sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion go iawn.
- Gall ymchwil ein helpu i ddeall pa ymyriadau sy'n gweithio, ac felly sicrhau ein bod yn creu arferion a pholisïau effeithiol a chost-effeithlon.

Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
RHWYDWAITH YMCHWIL CYMRU

Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence
RESEARCH NETWORK WALES

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

SCHOOL OF ADVANCED STUDY
UNIVERSITY OF LONDON

WAHA
Wales Arts & Humanities Alliance

WIN Wales Innovation Network
Rhwydwaith Arloesi Cymru

CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

COST VAWDASV

Mae VAWDASV yn un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu fel cymdeithas. Mae'n niweidiol i fywydau nawr ac i fywydau cenedlaethau'r dyfodol ac yn costio dros **£66 biliwn y flwyddyn i'r DU.**[1] Bydd y trais a'r cam-drin rhywiol a gyflawnwyd yng Nghymru a Lloegr yn 2024 yn unig yn costio dros £400 biliwn.[2] Mae VAWDASV yn cynrychioli 18% o'r holl droseddau sy'n cael eu hadrodd yng Nghymru a Lloegr.[3] Mae'n ddyletswydd gymdeithasol, moesol, cyfreithiol ac ariannol arnom i weithio tuag at ddileu VAWDASV. **Dylai pob £1 sy'n cael ei gwario ar wasanaethau arbenigol arbed o leiaf £9 i'r pwrs cyhoeddus.**[4]

Cymru oedd y gyntaf o blith cenhedloedd y DU i ddeddfu bod cyfrifoldeb arnom i gyd i weithio i atal VAWDASV gyda 'Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015'.[5] Ond mae angen gwneud mwy.

I sicrhau bod polisïau ac ymarfer yn wirioneddol effeithiol, mae angen i ni wrando ar oroeswyr a defnyddio eu storïau i ddeall beth sydd wir yn gwneud gwahaniaeth i'r ymdrechion i atal trais ac i waith amddiffyn a chefnogi goroeswyr. **Mae gan ymchwil ym maes y Celfyddydau a'r Dyniaethau rôl ganolog i'w chyflawni drwy wrando ar oroeswyr a chasglu tystiolaeth a data cadarn.**

CANFYDDIADAU

Nid oes cytundeb ar y meincnodau sy'n dangos beth sy'n atal VAWDASV neu'n dangos bod ymyriadau VAWDASV yn dda neu'n effeithiol, ac mae hyn yn arwain at gamddealltwriaethau, anawsterau gwerthuso, comisiynu anghyson, a dryswch ynghylch sut i weithredu rhaglenni atal. Mae ymchwil Prifysgol De Cymru wedi datgelu pa elfennau sy'n allweddol o ran ymdrin â VAWDASV yn effeithiol.[6] Ar hyn o bryd mae bylchau sylweddol mewn tystiolaeth ym maes VAWDASV. Mae goroeswyr yn wynebu rhwystrau wrth adrodd am eu profiadau a chael mynediad at gymorth, ac mae hyn yn arwain at fwlch sylweddol yn y data'n ymwneud â VAWDASV a'r hyn sy'n llwyddo i'w leihau. Mae gwaith gan Brifysgol De Cymru wedi datgelu blaenoriaethau ymchwil y sector.[7]

- Cymorth ac atal i blant a phobl ifanc
- Ehangu ymwybyddiaeth o VAWDASV y tu hwnt i'r sector
- Beth sy'n gweithio mewn polisi ac ymarfer
- Deall effeithiau VAWDASV ac anghenion goroeswyr
- Sut i sicrhau darpariaeth gynaliadwy wedi'i harwain gan anghenion ledled Cymru
- Sut i gynnal y sector yn ariannol
- Beth sy'n gweithio o ran ymyrraeth gynnar ac atal a newid ymddygiad ymhlith y rhai sy'n cyflawni VAWDASV
- Beth sy'n gweithio ar gyfer VAWDASV o ran ymateb yr heddlu a chyfiawnder troseddol
- Deall achosion sylfaenol VAWDASV ac anghenion cymhleth a chroestoriadol goroeswyr
- Sut i fynd i'r afael â'r ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n cyfrannu at VAWDASV
- Sut i amddiffyn rhag cam-drin ar ôl gwahanu

ARGYMHELLION POLISI

Rhaid i bolisi ac arfer VAWDASV gael eu llywio gan dystiolaeth gadarn. Mae deall profiad uniongyrchol pobl o VAWDASV yn ganolog i'r ymdrech i fynd i'r afael â bylchau gwybodaeth. Dim ond trwy ymchwil ym maes y Celfyddydau a'r Dyniaethau y gellir cyflawni hyn, yn enwedig o gofio bod galw arbennig am ymchwil sy'n rhoi llais i storïau a phrofiad uniongyrchol, ac yn dysgu o wrando ar y llais hwnnw.

Gall ymchwil yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau arwain at atebion arloesol a darpariaeth sy'n seiliedig ar anghenion. Mae ymyriadau creadigol ac adrodd straeon yn ein galluogi i feddwl y tu hwnt i'r hyn sydd wedi digwydd a dychmygu dyfodol newydd a gwell.

Mae buddsoddi mewn ymchwil ym maes y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn arwain at bobl yn byw bywydau hapusach a mwy iach, yn torri cylch trais, ac yn lleihau baich VAWDASV ar y pwrs cyhoeddus. Byddai byd heb VAWDASV yn well i bawb ac mae'n rhaid i ni ymrwymo i wneud popeth y gallwn i roi terfyn ar yr epidemig o drais a niwed.

Y CELFYDDYDAU A'R DYNIAETHAU

Mae data ar astudiaethau achos effaith[8] a gyflwynwyd gan brifysgolion Cymru i asesiad Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y DU yn dangos bod:

- Ymchwil Celfyddydau a Dyniaethau Cymru yn cael "effaith eithriadol ar gymdeithas, yr economi a diwylliant". Dangoswyd bod dros 50% o'r ymchwil yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn cael effaith oedd yn arwain yn fyd-eang – yn uwch nag unrhyw faes pwnc arall yng Nghymru, ac yn uwch na chyfartaledd y DU ar gyfer y Celfyddydau a'r Dyniaethau.[8]
- Ymchwilwyr y maes y Celfyddydau a'r Dyniaethau yng Nghymru yn cydweithio â phartneriaid y tu allan i'r brifysgol. Y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol oedd fwyaf tebygol o ymgysylltu â phartneriaid anacademaidd.
- Ffocws ymchwil yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau yng Nghymru ar Gymru. Y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol oedd fwyaf tebygol o gynnal ymchwil sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru.

[1] Costau economaidd a chymdeithasol cam-drin domestig, Ionawr 2019, The economic and social costs of domestic abuse.
[2] Lifetime cost of sexual violence revealed | Rape Crisis England & Wales
[3] Asesiad Bygythiad Risg Strategol Trais yn erbyn Menywod a Merched , Mai 2023, violence-against-women-and-girls---strategic-threat-risk-assessment-2023.pdf
[4] Buddsoddi i Arbed, 2023, Investing to save: The economic case for funding specialist domestic abuse support.
[5] Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
[6] Datganiad Safbwynt Llywodraeth Cymru – Effeithiolrwydd Ymyriadau Troseddwyr https://pure.southwales.ac.uk/en/projects/welsh-government-position-statement-efficacy-of-perpetrator-inter/
[7] Rhwydwaith Ymchwil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru: Gosod Blaenoriaethau Ymchwil Cymru, Medi 2022, https://pure.southwales.ac.uk/ws/portalfiles/portal/10183912/GCM_VAWDASV_research_priorities_FINAL_SEPTEMBER_2022_Cymraeg.pdf
[8] Mae holl ddataREF2021 yma https://results2021.ref.ac.uk/impact .

AWDUR

Wedi'i baratoi gan Yr Athro Emily Underwood-Lee, Prifysgol De Cymru **emily.underwood-lee@southwales.ac.uk**